

RAI blynyddoedd yn ôl prynais gopi ail-law o Yr Hyfforddwr Meddygol neu Arweinydd Meddyginiaeth Deuluaid. Hypochondria, meddech, neu efallai awydd i fynd yn ôl at yr hen feddyginiaethau a stocio'r cwpwrdd ffisig ag asiffeta, neu hyd yn oed dawleu'r teulu â dognau slei o laudanum. Na, 'rwy'n falch o ddweud mai enw'r awdur a'm denodd i brynu'r gyfrol.

Y mae'r llyfr "wedi ei gyfieithu o'r Saesneg, er budd i'r Cymru (sic) un iaith." Awdur y llyfr gwreiddiol, sef *The Domestic Medical Guide or complete Companion to the Family Medicine Chest*, oedd Richard Reece, M.D. Cyhoeddwyd y fersiwn Saesneg gyntaf gan Longman a Rees yn Llundain yn 1803, ac yr oedd yn ei ail argraffiad ar bymtheg erbyn 1850, ffaith sy'n rhoi rhyw syniad inni o'i boblogrwydd.

Yr unig fanylion sydd ar y fersiwn Cymraeg yw enw "William Williams, Argraffydd, Merthyr Tydfil", a'r dyddiad, 1816. Nid oes sôn pwy oedd y cyfieithydd.

Cyfieithiad sâl iawn ydyw: cyfieithiad mor boenus o lythrennol fel y byddai'r Cymro uniaith druan naill ai wedi gwella neu wedi trengi cyn dod i ddeall ambell gyfarwyddyd. Meddyliwch mewn difrif am rywun mewn gwewyr yn ceisio "cymhwyso golchdrwyth wrthfeddyginiaethol....mewn dull o sugaethu".

Ond, a barnu oddi wrth yr ôl traul sydd ar fy nghopi i, fe fu'n gydymaith ffyddlon i rywun rywdro. Y mae hwnnw wedi mynd i'r drafferth o ffurfio mynegai Saesneg manwl iawn ei hun mewn llawysgrifen hardd ar y mynegai Cymraeg sydd yn rhan o'r llyfr.

.....  
RICHARD Reece, fodd bynnag, oedd fy niddordeb i. Ganwyd Richard Reece yn 1775, yn fab i reithor Colwall yn Swydd Henffordd. Yr oedd ei fam o dras uchelwrol yng Ngwlad yr Haf. Erbyn pan oedd yn ugain oed yr oedd Reece yn llawfeddyg yn yr *Infirmery* yn Henffordd. Rhwng 1797 a 1808 bu'n gweithio yng Nghas-gwent ac yng Nghaerdydd, ac erbyn 1812, yr oedd yn Llundain.

Y mae'n amlwg iddo gael gyrfa bur ddisglair: wedi'r cyfan, nid oedd ond wyth ar hugain oed pan gyhoeddodd ei *Medical Guide*, ac yr oedd hefyd yn awdur lluo o lyfrau meddygol eraill mwy arbenigol eu naws. Cyn cyrraedd ei ddeugain yr oedd ganddo bractis helaeth a chrand yn Piccadilly.

Deuthum i adnabod Richard Reece yn gyntaf wrth weithio ar William Owen Pughe (1759-1835). Tua 1803 daeth Pughe dan ddylanwad gwraig

## DÔS O "FFISIG"

### Gan GLENDA CARR

o'r enw Joanna Southcott a ddaethai i Lundain tua'r adeg honno o Ddyfnaint. Yr oedd Joanna yn broffwydes; pregethai genadwri filblynyddol, a galwai ar y genedl i dministrio grym Satan. Yn nes ymlaen dechreuodd honni mai hi oedd "y wraig a wisgid â'r haul" y sonnir amdani yn Llyfr y Datguddiad.

Fe ellir lleoli Joanna mewn olyniaeth o broffwydi tebyg a gynhyrfwyd gan ddigwyddiadau cyffrous cyfnod pur gythyrlus, cyfnod y Chwyldro Ffrengig a bygythiad Napoleon Bonaparte. Ond fe gafodd Joanna fwy o lwyddiant na'r rhelyw, ac erbyn tua 1811 yr oedd ganddi rai miloedd o ddilynwyr ar hyd a lled Lloegr.

Daeth Pughe i mewn i gylch Joanna yn fuan ar ôl iddi gyrraedd Llundain, ac am y deng mlynedd olaf o'i hoes bu'n rhyw fath o ffactotwm iddi. Yn nhudalennau ei ddyddiadur sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol (L.L.G.C. 13248) gellir gweld yn eglur mor glos oedd y gyfathrach rhyngddynt yn ystod y blynyddoedd hynny.

Rhywbryd yn nechrau 1814 cyhoeddodd Joanna ei bod yn feichiog. Gan ei bod yn 64 oed ac yn wryf achosodd y cyhoeddiad gryn gyffro. Ac ar ben popeth dechreuodd Joanna arddangos arwyddion allanol pendant o feichiogrwydd. Honnai mai plentyn rhyfeddol oedd hwn, rhyw fath o waredwr, a rhoddodd yr enw Shiloh iddo.

Yr oedd William Owen Pughe a'r Southcottiaid eraill yn naturiol ar ben eu digon wrth weld cyflawni eu ffydd yn Joanna mewn ffordd mor amlwg a thrawiadol. Ond fel y gellid disgwyl, bu llawer iawn o wawdio ac amau. A dyna lle y mae Richard Reece yn dod i mewn i'r stori.

Penderfynodd y Southcottiaid y byddai'n rhaid cael cefnogaeth feddygol i gadarnhau'r beichiogrwydd er mwyn rhoi taw ar y gwatwarwy. Daeth nifer fawr o feddygon i weld Joanna, ac y mae'n amlwg mai'r mwyaf blaenllaw a'r uchaf ei barch oedd Richard Reece. Cyn bo hir yr oedd wedi cymryd yr achos i'w ddwylo ei hun.

.....  
ER NA adawai Joanna iddo ef na'r un o'r lleill roi archwiliad mewnol iddi, yr oedd ei hymddangosiad a'i symptomau yn ddigon i beri i Reece gyhoeddi ei bod yn amlwg yn feichiog. Yr oedd y

Southcottiaid yn ddiâu yn pwysu arno, ond y mae'n rhaid ei fod yntau'n weddol sicr yn ei feddwl cyn mentro'i enw da drwy gyhoeddi ei farn yn y *Sunday Monitor* fwy nag unwaith. Eto yr oedd yn dal i ddweud na ellid bod yn gwbl sicr heb gael archwiliad mewnol.

Y diwedd fu i Joanna glafychu, ac fel y cynyddai ei gwendid hi cynyddai amheuan Dr. Reece. Cawn ei hanes yn ymweld â Joanna ryw bythefnos cyn ei marw: *Damn me if the child is not gone*, oedd ei ymateb i'r newid a welai ynddi.

Gwyddai wedyn fod y broffwydes yn marw, a mynegodd hynny wrth William Owen Pughe a oedd yn bresennol ar y pryd. A marw wnaeth hi heb olwg o blentyn.

Ymhen rhai dyddiau daeth Reece a llu mawr o feddygon eraill i gynnal awtopsia ar y corff. Nid oedd na plentyn na thyfiant na dyfrglwyf nac unrhyw beth arall i esbonio'r "beichiogrwydd". Awgrymodd Reece mai twyll ar ran Joanna oedd y cwbl, er na feiddiai gyhuddo'r dilynwyr o fod â rhan yn y cynllwyn gan eu bod hwy'n amlwg wedi eu llorio gan siom a galar.

Gwyddom bellach mai cyflwr seicosomatig a achosodd ffug feichiogrwydd Joanna. Yr enw arno yw *pseudocyesis*, ac fe'i ceir weithiau mewn merched hysterig sy'n awchu am blentyn. Ni ellir beio Reece am fethu â deall y cyflwr.

Bûm yn trafod yr achos â'r diweddar Mr. O.V. Jones, yr obstetregydd, a dywed fod merched o'r fath yn ymddangos yn wirioneddol feichiog ar y wyneb, ac nid oedd gan Reece ddim mwy na'i lygaid ei hun a gair Joanna i'w helpu â'i ddiagnosis.

Y mae dyddiadur Pughe yn sôn am Joanna yn gwaelu tua'r diwedd, yn dioddef o boenau dirdynnol a chyfog, ac awgrymodd Mr. O.V. Jones mai parlys yn y perfedd yn troi yn *peritonitis*, efallai, a'i lladdodd. Bu peth oedi cyn cynnal yr awtopsia, gan fod y dilynwyr yn hanner disgwyl i Joanna ddadebru, ac fe fyddai'r oedi hwn wedi gwneud yr awtopsia'n fwy anodd.

.....  
YNG NGOLAU hyn i gyd tybiais y byddai'n ddiddorol troi at lyfr Dr Reece i gael rhyw syniad o'r ffordd y byddai ef wedi trin Joanna. Nid yw'r llyfr yn delio â beichiogrwydd fel y cyfryw, gan mai dyna yn ddiâu oedd cyflwr arferol gwragedd priod yr oes honno.

Gwyddom fod Joanna yn

dioddef yn arw o bylliau o iselder ysbryd, ac y mae agwedd y doctor at hyn yn sensitif iawn. Y mae'n argymhell digon o gwmi i dynnu sylw'r claf, ac "ymarferiad mewn cerbyd esmwyth". Os oedd yr iselder yn cynnwys "tybiau gau a gwyrngam am y Duwdod" neu orboeni am grefydd, ac fe fyddai hyn yn wir am Joanna, yna y mae'n argymhell darllen y Testament Newydd. Yno, meddai, gwelwn fod cymysgedd o hawddfyd ac adfyd yn drefn "i ffurfio ysgol o ddoethineb".

Ac os yw'r claf yn cael ei "gysgodi â lliw tywyll coel-grefydd" yna dylai ddarllen sylwadau'r Archegob Newcome ar Grist a thraethawd Mr. Fellowes ar farwolaeth.

Dywed Dr. Reece ei bod yn bwysig mewn achosion o'r fath i beidio â chroesi'r claf yn ormodol, gan fod hynny'n aml yn tueddu i gadarnhau ei fympwyon. A mor bell â dweud: "Ambell waith, yn wir, pan byddo'r synhwyrau wedi eu llygru'n ffyrnig, fe fyddai'n angenrheidiol i ffugio caniatad mwy hollol â thyb y person pruddglwyfus." Ai dyna beth a wnaeth ef â Joanna a'i dilynwyr, tybed?

Os oedd hyn i gyd yn methu, yna dylid cymryd tair llwy fwrdd o'r cymysgedd canlynol ddwywaith neu deirgwaith y dydd: "natron darparedig, dwy ddram; extract sylweddol gwraidd rhatany, tri dram; trwyth peraroglaidd rhatany, un wns; dwfr pur, deg owns."

\* \* \*

DYWED hefyd y gall "gwir dymheredd bruddglwyfus ddwyn merwindod a musgrellni yng ngweithrediad y cylla." Y mae'n debyg mai hyn oedd esboniad y doctor am boenau a chyfog Joanna tua'r diwedd. Ond hyd yn oed os oedd wedi llwyddo i ddod at y diagnosis cywir o "ennyniad yr ymysgaroedd" yr oedd y driniaeth, sef gwaedu'r claf yn helaeth a'i ddisio ag arian byw ac opwm.

Yn ôl Dr. Reece yr oedd dau beth yn anffaeledig at bopeth, sef gollwng gwaed a pheidio â bwyta gormod o gig.

Y mae llawer o gynghorion difyr yn llyfr Dr. Reece: er enghraifft, ceir disgirfiad digon clir, ac ystyried arddull y cyfieithydd, o sut i roi cusan bywyd gan ddefnyddio megin yn hytrach na'r geg i bwmpio aer i'r ysgyfaint.

I orffen, efallai y dylwn estyn gair o gydymdeimlad i'r darllenwyr hynny sy'n dioddef o'r haint erchyll hwn: "llifant sydd gynwysedig mewn ychwanegol ddiolliad o llysnafedd o'r bilionen sydd yn gwrthleinio y ffroenau, fauces, ac yn fynych yr ysgyfaint."

Peidiwch â phoeni'n ormodol. Dim ond annwyd sydd gennych.